



ATHRAWIAETH AR Y CYD: Y FFRAMWAITH RHYNGWEITHREDADWYEDD



JESIP

JOINT EMERGENCY SERVICES
INTEROPERABILITY PROGRAMME

Working Together – Saving Lives



**ATHRAWIAETH AR Y CYD:
Y FFRAMWAITH
RHYNGWEITHREDADWYEDD**



JESIP

JOINT EMERGENCY SERVICES
INTEROPERABILITY PROGRAMME



Rhagair

Croeso i argraffiad cyntaf yr “Athrawiaeth ar y Cyd: y fframwaith rhyngweithredadwyedd”. Mae’r canllaw hwn yn canolbwyntio ar ryngweithredadwyedd yr heddlu, y gwasanaethau tân ac ambiwlans yn ystod cyfnodau cynnar yr ymateb i ddigwyddiad mawr neu gymhleth. Ei bwrpas yw darparu comanderiaid y gwasanaethau brys â fframwaith i’w galluogi i ymateb gyda’i gilydd yn y modd mwyaf effeithiol posibl.

Datblygwyd y canllaw hwn gan gydweithwyr gwasanaethau’r heddlu, tân ac ambiwlans fel rhan o Raglen Ryngweithredadwyedd y Gwasanaethau Brys Ar y Cyd (*JESIP*). Mae’n wasanaeth cydnabyddedig tri-gwasanaeth, a staffir gan gynrychiolwyr o’r gwasanaethau golau glas yn unig, gyda chefnogaeth lawn y Prif Swyddogion ac Adrannau o’r Llywodraeth; y Swyddfa Gartref, Swyddfa’r Cabinet, Yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol, a’r Adran Iechyd. Sefydlwyd y rhaglen ar gais yr Ysgrifennydd Cartref yn dilyn nifer o ymholiadau cyhoeddus a ddywedodd y byddai gwaith ar y cyd rhwng y tri gwasanaeth brys yn gwella’u galluogrwydd gyda’i gilydd i arbed bywydau ac i leihau niwed. Nid yw digwyddiadau mawr a chymhleth yn digwydd yn aml, ond pan fyddant yn digwydd rhaid i ni sicrhau bod gennym yr ymateb mwyaf effeithiol, effeithlon a chydweithredol posibl. Dyma fydd y cyhoedd yn ei ddisgwyl.

Fel dogfen fyw bydd yr athrawiaeth hon yn destun newidiadau a gwelliannau i’r dyfodol, wrth iddi gael ei phrofi a’i hymgorffori i mewn i fusnes arferol. Fel tri gwasanaeth, mae angen i ni sicrhau bod yr egwyddor o weithio gyda’n gilydd yn cael ei drwytho yn ein sefydliadau ar bob lefel.

Rydym yn ddiolchgar iawn i’r unigolion hynny a’u sefydliadau cefnogol sydd wedi cyfrannu hyd yma. Os oes gennych chi unrhyw sylwadau ynglŷn â’r ddogfen, neu unrhyw gwestiynau ynglŷn â sut y byddech yn gweithredu yn sgil yr athrawiaeth hon, e-bostiwch JESIP@homeoffice.x.gsi.gov.uk

Yn gywir,

Prif Swyddog Tân Roy Wilsher



CFOA
Chief Fire Officers
Association

CC Lynne Owens



**ASSOCIATION OF
CHIEF POLICE OFFICERS**

Prif Weithredwr Anthony Marsh



**ASSOCIATION OF
AMBULANCE
CHIEF EXECUTIVES**



Cynnwys

Rhan 1 – Egwyddorion Cydweithio

- | | |
|--|---|
| 1. Cyflwyniad – Athrawiaeth a Chanllaw | 1 |
| 2. Yr Angen am Ryngweithredadwyedd | 2 |
| 3. Egwyddorion Cydweithio | 3 |

Atodiadau

- | | |
|-----------|---|
| Atodiad A | 6 |
| Atodiad B | 8 |

Rhan 2 – Ffyrdd o Weithio

- | | |
|---|----|
| 1. Ffyrdd o Weithio | 11 |
| 2. Y Model Penderfynu ar y Cyd (<i>JDM</i>) | 12 |
| 3. Lefelau Gweithredol, Tactegol a Strategaethol o Orchymyn | 17 |

Atodiadau

- | | |
|-----------|----|
| Atodiad C | 21 |
| Atodiad D | 23 |
| Atodiad E | 24 |
| Atodiad F | 25 |



RHAN 1 – EGWYDDORION CYDWEITHIO




1. Cyflwyniad – Athrawiaeth a Chanllaw

Seilir y strwythur ar gyfer rheoli ymateb yr amlasiantaeth leol i argyfyngau ar y Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl (2004), sy'n gosod dyletswydd cyfreithiol ar ymatebion Categori 1 i asesu risg, cynllunio ar gyfer argyfyngau ac i gydweithio a rhannu gwybodaeth â sefydliadau ymateb brys eraill. Cefnogir y Ddeddf gan ddwy set o ganllawiau; 'Parodrwydd am Argyfwng' a 'Ymateb Brys ac Achub' (ER&R). Mae 'Parodrwydd am Argyfwng' yn ymdrin â'r cyfnod cyn-argyfwng (cynllunio). Mae ER&R yn disgrifio'r fframwaith amlasiantaeth ar gyfer ymateb i argyfyngau a'r drefn achub yn y Deyrnas Unedig.

Mae'r cyhoeddiad hwn yn ategu ER&R drwy ganolbwyntio'n benodol ar y gwaith rhyngweithredadwyedd y tri gwasanaeth brys yn ystod y cyfnodau cynnar o ymateb i argyfwng lleol a ddigwydd yn sydyn. Ei bwrpas yw rhoi fframwaith i gomanderiaid gwasanaethau brys i'w galluogi i ymateb yn effeithiol gyda'i gilydd. Serch hynny, mae'r egwyddorion a ddisgrifir yn berthnasol hefyd i'r ystod ehangach o sefydliadau ymateb Categori 1 a 2 yn ogystal â digwyddiadau llai, argyfyngau ar draws ardal eang a gweithrediadau a gynllunir ymlaen llaw.

Mae'r Athrawiaeth ar y Cyd yn canolbwyntio ar rhyngweithredadwyedd y tri gwasanaeth brys tra'n cydnabod hefyd bod ymateb brys yn waith amlasiantaeth a bydd ymateb yn llwyddiannus i argyfwng fel arfer yn golygu cydweithredu ag ymatebwyr Categori 1 a 2 eraill yn ogystal â sefydliadau partneriaethol. Mae'r athrawiaeth yn sefydlu sut y dylai ymatebwyr ymarfer a gweithredu ac yn seiliedig ar sylfaen gyffredin o dermau, egwyddorion a ffyrdd o weithio. Mae Athrawiaeth ar y Cyd yn sefydlu beth ddylai ymatebwyr ei wneud a sut i wneud hynny mewn amgylchedd gwaith amlasiantaeth, er mwyn medru gweithio mewn ffordd rhyngweithredadwy sy'n hanfodol ar gyfer ymateb ar y cyd yn llwyddiannus. Nid yw'n cynnwys set o reolau i'w rhoi ar waith heb unrhyw ystyriaeth, ond yn hytrach yn ceisio arwain, egluro a chynghori.

Mae'r Athrawiaeth ar y Cyd yn eflen hanfodol yn y drefn o ganllawiau a welir yn Ffigur 1. Mae'n rhoi canllawiau cyffredinol i gomanderiaid, ar safle'r argyfwng ac fel arall, ar beth ddylent ei wneud wrth ymateb i ddigwyddiadau mawr a chymhleth ac mae'r egwyddorion hyn yr un mor berthnasol i weithrediadau ar y cyd beunyddiol. Dylai'r canllawiau a roddir yn y cyhoeddiad hwn weithio law yn llaw yn gyson â chanllawiau sefydliadau unigol, cyfarwyddiadau i'w staff ac wrth hyfforddi. Mae cyhoeddiadau ar wahân yn gosod ffyrdd arbenigol o weithio sy'n briodol mewn amgylchiadau neilltuol megis digwyddiadau Cemegol, Biolegol, Radiolegol a Niwclear (CBRN), neu Ymosodiadau Arfog gan Derfysgwyr Ysbeiliol (MTFA). Dylai'r dogfennau ymatebol arbenigol hyn weithio law yn llaw â'r canllawiau cyffredinol a roddir yn y cyhoeddiad hwn.



Ffigur 1 - Trefn Dogfennau Ymateb Brys ar gyfer y gwasanaethau brys

2. Yr Angen am Ryngweithredadwyedd

Y gwasanaethau golau glas, gan gynnwys yr heddlu a'r gwasanaethau tân ac ambiwlans, fydd y cyntaf fel arfer i gyrraedd argyfwng a ddigwydd yn sydyn. I gyflawni'r canlyniadau gorau posibl, bydd angen i'r holl ymatebwyr gydweithio'n effeithiol â'i gilydd unwaith y byddant wedi cyrraedd y digwyddiad.

Nid yw'r gofyniad am ymateb ar y cyd yn rhywbeth newydd i'r gwasanaethau brys a dylai bod hyn yn bodoli eisoes yn eu gwaith beunyddiol. Serch hynny, amlygodd y canlyniadau a'r gwersi o nifer o ymgynghoriadau ac ymchwiliadau cyhoeddus achosion lle dylai'r gwasanaethau brys fod wedi cydweithio'n well a dangos gwell lefelau o gydweithredu a chydgyssylltu. Mae'n ofynnol cael gwell cydweithredu a chydgyssylltu rhwng y tri gwasanaeth brys, sef y prif ymatebwyr i ddigwyddiadau fel arfer mewn argyfyngau a ddigwydd yn sydyn. Felly, tra bo egwyddorion rhyngweithredadwyedd hefyd yn briodol i'r ystod ehangach o ymatebwyr Categori 1 a 2, mae'r ddogfen hon yn canolbwyntio ar yr elfen gwasanaethau brys o'r ymateb.

Diffinir rhyngweithredadwyedd fel y graddau y gall sefydliadau gydweithio'n gydlynol â'i gilydd yn naturiol. I sicrhau bod rhyngweithredadwyedd yn bodoli rhwng y gwasanaethau brys yng Nghymru, Lloegr a'r Alban, a all gynnwys rhoi cymorth i'w gilydd ar draws eu ffiniau ar unrhyw adeg, rhaid i bob sefydliad ymatebol sicrhau bod trefniadau ymateb eu gwasanaethau unigol, a'u gweithdrefnau lleol, yn gyson â'r Athrawiaeth ar y Cyd ac yn unol â chanllawiau Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 a osodir yn yr Ymateb i Argyfwng ac Achub.

Dylai Comandariaid, ar bob lefel, fedru dangos eu bod wedi cael yr hyfforddiant rhyngweithredadwyedd priodol ar gyfer trefniadau paratoi ac ymateb i sicrhau'r lefelau uchaf posibl o gydweithio. Gyda'r hyfforddiant a'r gwaith ymarferol priodol rhwng y gwasanaethau brys, yn ogystal ag ymatebwyr eraill categori 1 a 2, bydd yr ymateb ar y cyd yn llawer iawn mwy effeithiol wrth arbed bywydau a lleihau'r achosion o niwed.

2.1 Diffiniadau

Mae nifer o dermau sy'n greiddiol i lwyddiant cydweithio a rhaid i bob un o'r ymatebwyr eu deall. Ceir diffiniadau ac eglurhad byr o bob un o'r rhain yn Atodiad A.

3. Egwyddorion Cydweithio

Rhaid i bob un o'r ymatebwyr roi'r egwyddorion ar waith wrth iddynt ystyried y weithred gywir i'w defnyddio. Dylai'r egwyddorion gael eu hystyried law yn llaw â'r **Gweithdrefnau Gweithredu ar y Cyd** neu **Safonol** wrth gydweithio mewn ymateb i argyfwng a'i gydgyssylltu.

Mae'r cyhoedd yn disgwyl y bydd y gwasanaethau brys yn cydweithio, yn enwedig yn yr ymateb cychwynnol, er mwyn arbed bywydau a lleihau'r achosion o niwed mewn unrhyw argyfwng. Pwrpas egwyddorion eglur a syml yw i roi cymorth i gomandariaid i weithredu dan bwysau a fydd yn sicrhau canlyniadau llwyddiannus. Mae'r symlrwydd hyn yn eithriadol o bwysig yn ystod cyfnodau cynnar digwyddiad neu argyfwng, pan mae angen gwneud penderfyniadau eglur a chadarn, a gweithredu arnynt hefyd, heb oedi, yn aml mewn sefyllfa sy'n newid yn gyflym. Ar safle'r digwyddiad, y drefn weithredu a ddisgwylir fyddai i gomandariaid yr heddlu, tân ac ambiwlans gyfarfod yn gyntaf (cydgwrdd); asesiad ar y cyd o'r sefyllfa a'r prif risgiau (cyfathrebu, asesiad risg ar y cyd ac ymwybyddiaeth ar y cyd o'r sefyllfa); a chynllun gweithredu wedi ei gydgyssylltu.

3.1 Cydgwrdd

Mae'n hanfodol bod y comandariaid yn cydgwrdd a chaniatáu iddynt berfformio dyletswyddau eu harweinyddiaeth, i orchymyn, rheoli a chydgyssylltu, wyneb yn wyneb, mewn un lleoliad sy'n hawdd ei adnabod. Gelwir y lleoliad hwn, sydd yn agos at y digwyddiad, yn Bwynt Rheoli'r Comandariaid (FCP), ac oddi yma mae'r gwasanaethau brys yn cael eu rheoli.

3.2 Cyfathrebu

Cyfathrebu yw'r weithred o drosglwyddo gwybodaeth eglur, diamwys ac amserol sy'n berthnasol i sefyllfa o argyfwng. Mae cyfathrebu deallus ac effeithiol yn greiddiol i fedru cydweithio'n effeithiol. Mae rhannu gwybodaeth, yn rhydd o acronymau, ar draws ffiniau gwasanaethau yn hanfodol i sicrhau llwyddiant gweithredol. Mae hyn yn cychwyn drwy gynllunio ymlaen a rhwng Ystafelloedd Rheoli cyn rhyddhau adnoddau.

Cyfathrebu yw'r gallu i gyfnewid gwybodaeth ddibynadwy a chywir h.y. gwybodaeth gritigol ynglŷn â pheryglon, risgiau a bygythiadau, yn ogystal â deall cyfrifoldebau a galluoedd pob sefydliad. Mae deall unrhyw wybodaeth a rennir yn sicrhau y llwyddir i fod yn ymwybodol ar y cyd o sefyllfa oedd sydd yn greiddiol er mwyn medru cael y canlyniadau gorau posibl mewn digwyddiad. Dylid defnyddio symbolau a themau cyffredin i gyfathrebu ystyr mewn modd sy'n gyffredin i'r holl ymatebwyr. Ceir rhagor o wybodaeth ynglŷn â symbolau a themau yn Atodiad B.

Nid bwriad y canllaw hwn yw darparu cyngor penodol ar y datrysiadau technegol sydd ar gael i'r gwasanaethau brys. Mae datrysiad technegol yn bodoli eisoes ar gyfer y gwasanaethau golau glas, ac mae disodli hyn yn destun rhaglen traws-lywodraethol a gwasanaeth brys ar wahân.

3.3 Cydgysylltu

Mae cydgysylltu'n ymwneud ag integreiddio blaenoriaethau, adnoddau, penderfyniadau a gweithgarwch ymatebol pob gwasanaeth brys er mwyn osgoi anghydfod posibl, dyblygu ymdrechion, lleihau risg a hyrwyddo canlyniadau llwyddiannus. Mae cydgysylltu effeithiol fel rheol yn galw ar un gwasanaeth i "arwain", megis cadeirio cyfarfodydd a sicrhau ymateb effeithiol. Gwasanaeth yr Heddlu fydd yn arwain fel arfer. Serch hynny, mewn rhai amgylchiadau gall gwasanaethau/asiantaethau eraill fod yn ddewis mwy priodol, gan ddibynnu ar natur yr argyfwng, cyfnod yr ymateb a'r galluogrwydd sydd ei angen.

3.4 Deall risg ar y cyd

Cyfyd risgiau o fygythiadau a/neu pheryglon a fydd yn cael eu gweld, eu deall a'u trin yn wahanol gan wahanol wasanaethau brys. Yng nghyd-destun ymateb ar y cyd, bydd rhannu gwybodaeth a deall tebygolrwydd ac effaith posibl risgiau ynghyd ag argaeledd a goblygiadau mesurau rheoli posibl, yn sicrhau mor ymarferol â phosibl, na fydd y nod a'r amcanion a gytunwyd arnynt dan fygythiad. Bydd hyn yn cynnwys sicrhau diogelwch ymatebwyr a lliniaru effaith risgiau ar y cyhoedd, seilwaith a'r amgylchedd. Ceir rhagor o wybodaeth ar yr asesiad ar y cyd o risg yn Rhan 2 – Ffyrdd o Weithio.

3.5 Ymwybyddiaeth ar y cyd o sefyllfaoedd

Mae dealltwriaeth gyffredin o amgylchiadau a goblygiadau cychwynnol yr argyfwng, ynghyd â gwerthfawrogiad o'r galluogrwydd sydd ar gael a blaenoriaethau'r gwasanaethau brys. Mae llwyddo i gael ymwybyddiaeth ar y cyd o'r sefyllfa'n hanfodol ar gyfer rhyngweithredadwyedd effeithiol wrth ymateb i argyfwng a gellir sicrhau'r llwyddiant hwn drwy ddefnyddio'r Model Penderfynu ar y Cyd (*JDM*) a geir yn Rhan 2 – Ffyrdd o Weithio. Nid yn unig y mae ymwybyddiaeth ar y cyd o sefyllfaoedd yn berthnasol i ddealltwriaeth gyffredin rhwng comandariaid mewn digwyddiad, ond hefyd rhwng ystafelloedd rheoli a holl haenau'r strwythur gorchmynion.



ATODIADAU

A. Diffiniad Termau Allweddol mewn Rhyngweithredadwyedd

B. Termau Cyffredin mewn Rheoli Argyfyngau

Atodiad A

Diffiniad Termau Allweddol mewn Rhyngweithredadwyedd

Galluogrwydd - Gallu ymarferol i ymateb i fygythiad neu berygl neilltuol ac adfer y sefyllfa.

Gorchymyn - Defnyddio awdurdod a roddwyd, sy'n gysylltiedig â swyddogaeth neu ranc o fewn sefydliad, i roi cyfarwyddyd er mwyn cyflawni amcanion a ddiffiniwyd. Rhoddir gorchymynion gan y rhai sydd wedi cael awdurdod i wneud hynny (trwy swyddogaeth neu ranc) dros eraill, ar gyfer gweithred neu ddigwyddiad neilltuol, i wneud penderfyniadau a rhoi cyfarwyddyd er mwyn llwyddo i gwrdd ag amcanion a gytunwyd ac a luniwyd ar y cyd. Mae gweithwyr sydd yn darparu arbenigedd neu gyngor ar bwnc penodol yn gwneud hynny i gefnogi'r Comander Gweithrediadau neu Dactegol ac fel rhan o'r Tîm Cefnogi Gorchymynion.

Comander - Aelod o staff sydd, drwy waith neu ranc, â dyletswydd i sicrhau bod ei dimau, lluoedd neu sefydliadau'n barod i roi eu dyletswyddau neu eu hymrwymyiadau ar waith.

Rheolaeth - Defnyddio awdurdod, yn unol â'r gallu i reoli adnoddau, er mwyn cyflawni amcanion a ddiffiniwyd. Diffinir rheolaeth fel yr awdurdod a'r gallu sydd gan sefydliad i gyfarwyddo gweithrediadau ei weithwyr ei hun. Tra na all un gwasanaeth brys fod â hawl i orchymyn un arall, gall fod yn briodol i gomanderiaid gwasanaeth roi awdurdod i'w gweithwyr neu eu hasedau gael eu rheoli gan grŵp cydgyrdio neu gomander y gwasanaeth arweiniol a ddewiswyd ar gyfer tasg neilltuol.

Cydgysylltu - Integreiddio ymdrechion amlasiantaeth a galluogrwydd sydd ar gael, a allai fod yn annibynnol, er mwyn cyflawni amcanion a ddiffiniwyd. Mae cydgysylltu'n digwydd ar un neu fwy o lefelau cynyddol - Gweithredol, Tactegol a Strategaethol, gyda chydgyrdio ar lefel genedlaethol ar gyfer yr argyfyngau mwyaf difrifol.

Argyfwng - Digwyddiad neu sefyllfa sy'n bygwth niwed difrifol i les dynol mewn lleoliad yn y Deyrnas Unedig, amgylchedd lleoliad yn y Deyrnas Unedig, neu ddiogelwch y Deyrnas Unedig neu leoliad yno.

Cyfrifoldeb Arweiniol - Pan drosglwyddir rheolaeth oddi wrth unigolyn, fel y diffinir yn Atodiad A, i wasanaeth brys arall er dibenion tasg benodol. Mae'r atebolrwydd cyfreithiol am weithrediadau'r unigolyn hwnnw yn sefyll, bob amser, gyda'r gwasanaeth sy'n cyflogi'r gweithiwr hwnnw.

Dysgu ar y Cyd - Adnabod y gwersi o ymarferion neu weithrediadau sy'n berthnasol i ddysgu ar y cyd a'r broses o roi newid ar waith a'i sefydlu mewn sefydliadau ac ymddygiadau mewn ymateb i'r gwersi hynny. Dysgu yw'r broses o ddatblygu gwybodaeth, sgiliau, agweddau ac ymddygiadau. Gyda gwersi sy'n ymwneud â gweithio ar y cyd, yn sgil digwyddiad, ôl-drafodaethau ymarferion neu unrhyw ddull arall, mae'n hanfodol dal, asesu, rhannu a gweithredu ar y gwersi hynny ar y cyd er mwyn hybu gwella parhaus ond hefyd i gadarnhau'r arfer orau pan welir hynny.

Gweithio ar y Cyd - Nifer o sefydliadau'n cydweithio ar gwrs, gweithredu rhywbeth, er mwyn cyflawni amcanion a gytunwyd wrth ymateb i argyfwng. Mae'r cyhoedd yn disgwyl y bydd y gwasanaethau brys yn cydweithio, yn enwedig yn yr ymateb cychwynnol i argyfwng, er mwyn achub bywydau a lleihau niwed. Ni ddylai blaenoriaethau unigol y gwasanaethau Heddlu, Tân ac Achub neu Ambiwlans ddisodli'r elfen o gydweithio amlasiantaeth sydd ei angen er mwyn medru

cydweithio'n effeithiol ac yn effeithlon. Y nod yw defnyddio'r adnoddau sydd ar gael yn y modd orau ar y cyd er mwyn cyflawni'r amcanion ymateb a gytunwyd arnynt ar y cyd yn llwyddiannus. Mae'n hanfodol nad yw gwaith un gwasanaeth ymateb yn amharu neu'n disodli effeithiolrwydd un arall.

Digwyddiad Mawr – *Digwyddiad neu sefyllfa sy'n galw am ymateb dan un neu ragor o gynlluniau digwyddiad mawr y gwasanaethau brys.* Gall un gwasanaeth golau glas ddatgan digwyddiad mawr, neu gellir gwneud hynny ar y cyd. Mae'n bosibl i un gwasanaeth yn unig gyhoeddi argyfwng fel digwyddiad mawr ar sail y math o ddigwyddiad a faint o'u hadnoddau sydd eu hangen. Nid yw hyn o angenrheidrwydd yn golygu bod y digwyddiad yn un mawr i'r gwasanaethau eraill i gyd.

Data Personol - *Data sy'n gysylltiedig ag unigolyn byw neu grŵp a ellir ei adnabod o'r data ac yn cynnwys barn am yr unigolyn ac unrhyw fynegiant neu fwriadau mewn perthynas â'r unigolyn.* (Deddf Diogelu Data 1998).

Argyfwng a Ddigwydd yn Sydyn – *Argyfwng sy'n datblygu'n sydyn ac yn cael effaith yn syth fel arfer, gan felly gyfyngu'r amser sydd ar gael i ystyried dewisiadau ymateb.*

Argyfwng Graddol – *Digwyddiad neu sefyllfa gyda chyfnod rhybudd o rai dyddiau, wythnosau neu fisoedd hyd yn oed e.e. pandemig iechyd, llifogydd neu gyngerdd pop, gyda'r effaith terfynol yn ansicr o'r cyfnod cynnar.*

Data Personol Sensitif - *Data personol sy'n cynnwys gwybodaeth am (gan gynnwys ond nid yn unig): hil/ tarddiad ethnig, credoau crefyddol, iechyd corfforol neu feddyliol a chyflawni neu amheuaeth o gyflawni unrhyw drosedd.* (Deddf Diogelu Data 1998).

Atodiad B

Termau Cyffredin mewn Rheoli Argyfyngau

Un o rwystrau medru llwyddo i sicrhau ymwybyddiaeth ar y cyd o'r sefyllfa yw'r defnydd o dermau sydd un ai'n golygu rhywbeth gwahanol i wahanol bobl, neu sy'n annealladwy ar draws gwahanol wasanaethau. Mae diffinio termau dealladwy yn ddymunol ac yn bosibl i raddau helaeth, ond rhaid i ymatebwyr brys fod yn ymwybodol o'r risg y gall eu dealltwriaeth nhw o gysyniadau a thermau penodol un ai gael eu camddeall neu ddim eu deall o gwbl gan eraill. Lle ceir y posibilrwydd o ddrwsch, dylai ymatebwyr sicrhau eu bod yn defnyddio iaith syml.

Sefydlwyd geirfa o dermau cyffredin i ddiffinio a hyrwyddo termau a ddeallir yn gyffredin mewn rheoli argyfyngau a chyflwynir hyn isod ynghyd â diffiniadau penodol ar gyfer termau sy'n gritigol i ryngweithredadwyedd. Isod hefyd ceir set o symbolau map cyffredin a gysylltir â'r eirfa, a dylid eu mabwysiadu gan ymatebwyr brys.

Geirfa Termau Cyffredin ar gyfer Rheoli Argyfyngau yn y Deyrnas Unedig

Heb ddealltwriaeth gyffredin o ystyr termau, ymadroddion a symbolau map cysylltiedig, bydd gwaith amlasiantaeth bob amser yn rhedeg risg o gamddealltwriaethau difrifol posibl, a gallai goblygiadau'r rhain fod yn ddifrifol iawn. Ers 2007, mae'r Ysgrifenyddiaeth Argyfyngau Sifil Posibl yn Swyddfa'r Cabinet wedi bod yn gweithio gydag ystod eang o bartneriaethau i greu un pwynt cyfeirio awdurdodol ar gyfer termau a symbolau map mewn perthynas â diogelwch dinesig. Ceir crynodeb ohonynt isod.

Casgliad o dermau yw geirfa o faes penodol o waith neu wybodaeth a ddiffinir ac sy'n gysylltiedig â gwybodaeth ychwanegol er budd y defnyddiwr. Mae'r eirfa'n sefydlu diffiniadau cyffredin a gytunir arnynt i'w defnyddio mewn rheoli argyfyngau amlasiantaeth. Caiff yr eirfa ei diweddarau'n rheolaidd ac mae hi ar gael yn:

<https://www.gov.uk/government/publications/emergency-responder-interopability-lexicon>

Anogir gwasanaethau brys ac ymatebwyr eraill i groesgyfeirio diffiniadau a roddir yn nogfennau eu sefydliadau eu hunain i'r eirfa ac i fabwysiadu'r diffiniadau a roddir yn yr eirfa. Mae uno termau yn y fath fodd yn rhan allweddol o greu rhyngweithredadwyedd cadarn.

Mewn rhai achosion gall rhai termau penodol neu acronymau fod â mwy nag un ystyr. Nid yw hyn i'w groesawu, ac mae perygl dryswch yma. Mae'n atgyfynnerthu'r pwynt, er y defnydd o offer fel yr eirfa, cyfrifoldeb yr ymatebwyr brys ar y ddaear yw sicrhau termau sy'n ddealladwy i bawb. Lle ceir unrhyw amheuaeth ynglŷn â'r hyn a olygir gan derm neilltuol, yna rhaid i unigolion wirio a chadarnhau bod dealltwriaeth gyffredin yn bodoli.

Lle dylid cynnwys termau ychwanegol yn yr eirfa, neu os bydd ymatebwyr yn dymuno trafod diffiniadau presennol yna mae manylion cyswllt ar gael drwy'r ddolen ryngrwyd uchod. Mae Swyddfa'r Cabinet yn cynnal yr eirfa fel un pwynt cyfeirio awdurdodol, ond mae cymuned yr ymatebwyr brys yn rhannu'r cyfrifoldeb o gynnal ac ehangu'r eirfa, felly croesawir cyfraniadau o bobman.

Geirfa Termau Cyffredin ar gyfer Rheoli Argyfyngau yn y Deyrnas Unedig

Defnyddir mapiau'n helaeth mewn rheoli argyfyngau, ond os bydd gwahanol sefydliadau'n defnyddio symbolau map gwahanol i ddynodi'r un nodwedd (e.e. pwynt cyfarfod (*RVP*) neu fan mewnol a ynyswyd) yna mae risg o ddryswch peryglus ac mae'r fantais o ddefnyddio'r map fel offer i gydgordio gweithrediadau amlasiantaeth yn cael ei lleihau'n arw. Am y rheswm hwn, mae Swyddfa'r Cabinet a'r Arolwg Ordnans (*OS*) wedi cydweithredu i ddatblygu a dosbarthu set greiddiol o symbolau map cyffredin i'w defnyddio mewn rheoli argyfyngau.


Ceir hyd i'r rhain ar-lein ac mae dolen i'r dudalen i'w lawrlwytho ar wefan yr OS yn:

<https://www.gov.uk/government/publications/emergency-responder-interopability-common-map-symbols>

Ar hyn o bryd cyfyngir y set symbolau i'r nodweddion creiddiol allweddol canlynol:

- Digwyddiadau a pheryglon
- Safleoedd Gorchymyn, Rheoli, Cydgysylltu a Chyfathrebu
- Asedau
- Seilwaith
- Ffiniau ynysu, parthau ac ardaloedd.

Datblygir y symbolau hyn o nifer o elfennau creiddiol, a ddangosir isod:



Man mewnol a ynyswyd cyffredinol
(gyda chastelliad ar y tu mewn)



Man allanol a ynyswyd cyffredinol
(gyda chastelliad ar y tu allan)



RHAN 2 – FFYRDD O WEITHIO



1. Ffyrdd o Weithio

Rhaid i'r holl weithwyr sy'n cael eu galw i ymateb i sefyllfa o argyfwng fod wedi eu hyfforddi'n briodol ac yn medru cwblhau'r dyletswyddau a roddir iddynt. Yn ystod cyfnod cynnar o ymateb i ddigwyddiad, mae'n bosibl y gall gweithiwr o un gwasanaeth gwblhau tasgau ar hap sy'n gyfrifoldeb gwasanaeth arall fel rheol. Serch hynny, unwaith y bydd digon o weithwyr yn eu lle, rhaid sefydlu gorchymyn pendant a rheolaeth o'r swyddogaethau i'r gwasanaeth sy'n gyfrifol amdanynt fel rheol.

Rhaid i Weithdrefnau Gweithredu Safonol Lleol (SOPs) neu gyfarwyddiadau/gyfarwydddebau cyffelyb gynnwys cyfarwyddyd sy'n hyrwyddo ffyrdd o weithio sy'n caniatáu ar gyfer ymdrech integredig gydag asiantaethau partneriaethol. Bydd angen i'r SOPs ganolbwyntio ar weithrediadau ac ystyriaethau penodol, yn ôl y gofyn, er mwyn rhoi rhai swyddogaethau penodol ar waith. Serch hynny, dylai'r cyfarwyddiadau hyn egluro, o'r cychwyn cyntaf, yr angen hanfodol i weithio ar y cyd â chomanderiaid amlasiantaeth ac i osgoi unrhyw anghydfod mewn ymdrechion rhwng y gwahanol sefydliadau ymateb.

Bydd y defnydd o'r Model Penderfynu ar y Cyd (JDM), sydd yn cynnwys y dull i sefydlu ymwybyddiaeth ar y cyd o'r sefyllfa a chwblhau asesiad risg ar y cyd, yn galluogi cydweithio effeithiol ac effeithlon ymysg yr ymatebwyr golau glas a rhoi cymorth wrth bennu blaenoriaethau gweithredu.

2. Y Model Penderfynu ar y Cyd (JDM)

Mae ystod eang o fodelau gwneud penderfyniadau ar gael, gan gynnwys modelau penodol a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys yn unigol. Mae modelau o'r fath yn bodoli er mwyn rhoi cefnogaeth ymarferol i benderfynwyr sy'n gweithio dan amodau anodd a dywed yr egwyddor arweiniol na ddylai'r modelau hyn fod yn rhy gymhleth. Un o'r anawsterau sy'n wynebu comanderiaid o wahanol sefydliadau mewn ymateb ar y cyd i argyfwng yw llwyddo i ddod â'r holl wybodaeth sydd ar gael ynghyd, derbyn amcanion a gwneud penderfyniadau effeithiol ar y cyd. Datblygwyd y JDM, fel a ddangosir yn Ffigwr 2, i alluogi hyn i ddigwydd.

Yn unol â'r rhan helaeth o fodelau penderfynu, seilir y JDM ar dair brif ystyriaeth:


Sefyllfa: beth sy'n digwydd, beth yw'r effeithiau, beth yw'r risgiau, beth all ddigwydd a beth sy'n cael ei wneud ynglŷn â hynny? Ystyr ymwybyddiaeth sefyllfaol yw meddu ar wybodaeth briodol o'r ffactorau hyn.

Cyfarwyddyd: pa ganlyniad a ddymunir, beth yw nodau ac amcanion yr ymateb brys a pha werthoedd a blaenoriaethau trosfwaol fydd yn hysbysu ac yn arwain hyn?

Gweithred: beth sydd angen ei benderfynu a beth sydd angen ei wneud i ddatrys y sefyllfa a chyrraedd y nod a ddymunir?

Mae'r JDM yn datblygu'r ystyriaethau hyn ac yn gosod y gwahanol gyfnodau ynglŷn â sut dylid cytuno ar y penderfyniadau ar y cyd hyn. Un o egwyddorion arweiniol y JDM yw y bydd penderfynwyr yn defnyddio'u barn a'u profiad wrth benderfynu pa gwestiynau ychwanegol i'w gofyn ac ystyriaethau i'w cadw mewn cof, er mwyn cytuno ar benderfyniad ar y cyd. Felly rhaid iddynt fod yn rhydd i ddechongli'r JDM drostynt eu hunain, yn synhwyrol ac yn unol â'r amgylchiadau sy'n eu hwynebu ar unrhyw adeg. Dylai glynu wrth y broses o gamau a amlinellir yn y JDM fod yn eilradd bob tro y tu ôl i'r nod o sicrhau canlyniadau a ddymunir, yn enwedig mewn sefyllfaoedd lle mae amser yn brin. Bydd dealltwriaeth fanwl a phrofiad o'r JDM o gymorth wrth feddwl yn glir ac yn drefnus dan bwysau. Mae'r rhannau canlynol yn crynhoi'r cwestiynau a'r ystyriaethau y dylai comanderiaid feddwl amdanynt yn y model canlynol.

Gellir defnyddio'r JDM ar gyfer argyfwng a *ddigwydd yn sydyn* neu'n *raddol* i alluogi sefydlu ymwybyddiaeth ar y cyd o'r sefyllfa.



Ffigur 2 - Y Model Penderfynu ar y Cyd

2.1 Cydwethio – Arbed Bywydau, Lleihau Niwed

Rhaid i benderfyniadau ar y cyd gael eu gwneud gyda chyfeiriad at y prif nod neu nod droswaol unrhyw ymateb i argyfwng: arbed bywydau neu leihau niwed. Cyflawnir hyn drwy ymateb mewn modd cydgysylltiol ac amlasiantaeth. Dylai penderfynwyr ystyried hyn yn flaenoriaeth drwy gydol y broses o wneud penderfyniadau.

2.2 Casglu a rhannu gwybodaeth a chudd-wybodaeth

Ystyr ymwybyddiaeth sefyllfaol yw cael atebion priodol i'r cwestiynau canlynol: beth sy'n digwydd, beth yw'r effeithiau, beth yw'r risgiau, beth all ddigwydd a beth sy'n cael ei wneud ynglŷn â hynny? Yng nghyd-destun y JDM, mae ymwybyddiaeth ar y cyd o sefyllfa'n dod yn eithriadol o bwysig. Cyflawnir ymwybyddiaeth ar y cyd o sefyllfa drwy rannu gwybodaeth a dealltwriaeth rhwng y sefydliadau sydd ynghlwm, i greu ymwybyddiaeth fwy cadarn ac aml-ddimenswn o'r digwyddiadau, eu goblygiadau, risgiau cysylltiedig a'r canlyniadau posibl.

Ar gyfer argyfyngau cymhleth, p'un ai'n ddigwyddiad sydyn neu ddigwyddiad graddol, mae'n amlwg na all un gwasanaeth yn unig ddeall holl elfennau argyfwng yn y cychwyn cyntaf. Dim ond drwy gyfathrebu synhwyrol rhwng y gwasanaethau brys ac ymatebwyr brys eraill y daw'r ddealltwriaeth ddofn ac ehangach hon. Dylid cyflawni hyn yn seiliedig ar weithdrefnau a gytunwyd i rannu'r wybodaeth angenrheidiol ac ymrwymiad i ddefnyddio termau cyffredin dealladwy yn hytrach na thermau neu jargon sy'n benodol i'r gwasanaeth a allai arwain at ddiffyg dealltwriaeth. Yn syml, ni all comandariaid dybio y bydd gweithwyr gwasanaeth brys arall yn ystyried pethau yn yr un modd â hwythau, ac mae angen ymdrechu'n galed i gyrraedd barn gyffredin a dealltwriaeth gyffredin o ddigwyddiadau, risgiau a'u goblygiadau.

Nid yw gwneud penderfyniadau yng nghyd-destun argyfwng, gan gynnwys penderfyniadau'n ymwneud â rhannu gwybodaeth, yn golygu nad yw goblygiadau statudol asiantaethau ac unigolion yn bwysig, ond cydnabyddir bod penderfyniadau o'r fath yn cael eu gwneud yn erbyn y brif flaenoriaeth o arbed bywydau a lleihau niwed.

Mae rhannu data personol a data personol sensitif (gan gynnwys cudd-wybodaeth yr heddlu) angen ystyriaeth bellach cyn ei rhannu ar draws asiantaethau a gellir defnyddio'r JDM fel offeryn i arwain y broses o benderfynu beth ddylid ei ryddhau ac i bwy. Yn neilltuol, wrth ystyried goblygiadau cyfreithiol a pholisi, mae'r canlynol yn berthnasol:

- Mae angen fframwaith gyfreithiol i rannu gwybodaeth – mewn sefyllfa o 'argyfwng' daw hyn fel rheol o'r Gyfraith Gyffredin (arbed bywyd/eiddo), y Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998 neu'r Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004
- Gall Cytundebau Rhannu Gwybodaeth Ffurfiol (ISAs) fodoli rhwng rhai neu'r cyfan o'r asiantaethau ymateb ond nid yw argaeledd o'r fath yn atal rhannu gwybodaeth y tu hwnt i'r ISAs hyn
- Dylid cael pwrpas penodol dros rannu gwybodaeth
- Dylai'r angen i rannu gwybodaeth fod yn gymesur â'r pwrpas a dim mwy na hynny
- Yr angen i hysbysu'r derbynnydd os yw rhan o'r wybodaeth yn annibynadwy neu'n anghywir o bosib
- Yr angen i sicrhau bod y wybodaeth yn cael ei rhannu'n ddiogel – rhaid cydymffurfio â Chynllun Marcio Diogel y Llywodraeth (GPMS – a ddisodlwyd gan y Polisi Dosbarthiad yn 2014) os yw hynny'n briodol
- Dylid cofnodi pa wybodaeth a rennir, pa bryd, gyda phwy a pham.

Dylid defnyddio'r canlynol (*METHANE* yn Saesneg) wrth drosglwyddo gwybodaeth yn y cyfnodau cynnar rhwng ymatebwyr brys ac Ystafelloedd Rheoli er mwyn sefydlu ymwybyddiaeth ar y cyd o sefyllfaoedd:

- **D**igwyddiad mawr wedi ei gyhoeddi?
- **U**nion leoliad;
- **M**ath o ddigwyddiad e.e. ffrwydriad, adeilad wedi dymchwel;
- **P**eryglon yn bresennol, posibl neu'n cael eu hamau;
- **M**ynediad – y llwybrau sy'n ddiogel i'w defnyddio;
- **N**ifer, math, difrifoldeb cleifion;
- **G**wasanaethau brys yn bresennol yn awr a'r rhai sydd eu hangen.

2.3 Asesu risgiau ar y cyd, datblygu strategaeth weithredol

Mae deall risg yn greiddiol i ymateb brys. Mae'r Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl yn ei gwneud hi'n ofynnol i bob ymatebwr Categori 1 gael dealltwriaeth gywir ac *ar y cyd* o'r risgiau a fyddai neu a fydd yn effeithio'r ardal ddaearyddol maent yn gyfrifol amdani. Tasg allweddol i gomandariaid yw i feithrin ac i gynnal dealltwriaeth ar y cyd o'r ystod lawn o risgiau a'r modd y gall y risgiau hynny gynyddu, eu lleihau neu gael eu rheoli gan benderfyniadau a wneir a'r gweithrediadau a wneir yn sgil hynny. Mewn argyfwng mawr a chymhleth bydd gan y gwasanaethau golau glas fewnwelediad unigryw i mewn i'r risgiau hynny a thrwy rannu'r wybodaeth honno gellir sefydlu dealltwriaeth ar y cyd.

Asesu risg ar y cyd yw'r broses a ddefnyddir gan gomandariaid i weithio tuag at ddealltwriaeth ar y cyd o fygythiadau, peryglon a'r tebygolrwydd iddynt ddigwydd, er mwyn medru gwneud penderfyniadau gweithredol a rhoi mesurau rheoli risg angenrheidiol mewn grym. Mae angen i'r mesurau lliniaru risg a ddefnyddir gan wasanaethau unigol gael eu deall gan y sefydliadau eraill sy'n ymateb er mwyn medru adnabod unrhyw oblygiadau annisgwyl cyn i'r gwaith gychwyn. Mae

asesiad ar y cyd o'r prif risgiau hefyd yn lleihau'r tebygolrwydd o unrhyw un o'r gwasanaeth ddilyn llwybr gweithredol na all y gwasanaethau eraill ei ddilyn. Mae hyn felly'n gwella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd gweithredol yr ymateb yn ogystal â'r tebygolrwydd y llwyddir i ddatrys y digwyddiad yn llwyddiannus.

Mae hi'n anarferol cael darlun llawn neu berffaith, ac felly dylai strategaeth weithredol ar gyfer digwyddiad graddol fod yn seiliedig ar y wybodaeth sydd ar gael ar y pryd. Dylid ystyried y canlynol wrth ddatblygu strategaeth weithredol:

- **Beth** yw'r amcanion i'w cyflawni?
- **Gan bwy** – Heddlu, Tân, Ambiwlans a sefydliadau partneriaethol?
- **Pa bryd** – amserlen, terfynau amser, cerrig milltir?
- **Ymhle** – pa leoliadau?
- **Pam** – beth yw'r sail resymegol? A yw hyn yn gyson â'r nodau a'r amcanion strategol?
- **Sut y** cyflawnir y tasgau hyn?

Er mwyn darparu cynllun ymateb gweithredol integredig amlasiantaeth effeithiol, rhaid ymgymryd â'r camau allweddol canlynol:

Adnabod peryglon – bydd hyn yn cychwyn unwaith y daw'r alwad gyntaf gan yr ystafell Reoli ac yn parhau wrth i'r ymatebwyr cyntaf gyrraedd safle'r argyfwng. Rhaid dosbarthu'r wybodaeth a gasglwyd gan asiantaethau unigol i'r holl ymatebwyr a'r Ystafell Reoli'n effeithiol. Bydd defnyddio'r cofair **METHANE** o gymorth wrth weithio ar y cyd.

Asesiadau Risg Deïnamig – a gwblheir gan asiantaethau unigol, yn adlewyrchu'r tasgau / amcanion i'w cyflawni, y peryglon a adnabuwyd a'r tebygolrwydd o niwed o'r peryglon hynny.

Adnabod tasgau – dylai pob asiantaeth adnabod ac ystyried y tasgau penodol i'w cyflawni yn unol â'i swyddogaeth a'i chyfrifoldebau.

Rhoi mesurau rheoli ar waith – dylai pob asiantaeth ystyried mesurau rheoli priodol a'u rhoi ar waith i sicrhau bod tebygolrwydd unrhyw risg mor isel â phosibl yn ymarferol

Cynllun ymateb gweithredol integredig amlasiantaeth – dylai datblygiad y cynllun hwn ystyried canlyniadau'r asesiad peryglon ac asesiadau risg y gwasanaeth, o fewn cyd-destun blaenoriaethau'r digwyddiad a gytunwyd.

Cofnodi penderfyniad – dylid cofnodi canlyniadau'r asesiad risg a wnaed ar y cyd, ynghyd â'r blaenoriaethau a adnabuwyd a'r cynllun ymateb amlasiantaeth, pan fydd adnoddau'n caniatáu hynny. Cydnabyddir na all hyn fod yn bosibl efallai yng nghyfnod cynnar digwyddiad, ond dylid nodi bod y gwaith craffu yn dilyn digwyddiad yn anochel yn canolbwyntio ar y penderfyniadau cynharaf a wneir.

2.4 Ystyriwch bwerau, polisïau a gweithdrefnau

Bydd gwneud penderfyniadau mewn argyfwng yn canolbwyntio ar sut i gyrraedd y nod a ddymunir a bydd amryw o rwystrau ac ystyriaethau yn sicr o'ch wynebu a fydd yn dylanwadu ar gyflawni'r nod. Mae pwerau, polisïau a gweithdrefnau'n gysylltiedig ag unrhyw ddeddfwriaeth, trefniadau gweithredu neu bolisïau perthnasol a all effeithio ar y cynllun ymateb a ddymunir a'r elfennau o alluogrwydd sydd ar gael i'w rhoi ar waith. Gallent effeithio ar sut y bydd angen i wasanaethau unigol weithredu a chydweithredu er mwyn cyfalwni'r nodau ac amcanion a gytunwyd arnynt. Yng nghyd-destun ymateb ar y cyd, mae dealltwriaeth gyffredin o unrhyw bwerau, polisïau, galluogrwydd a gweithdrefnau'n hanfodol er mwyn i weithgarwch un gwasanaeth ategu yn hytrach na gweithio'n groes i ddulliau gwasanaethau eraill.

2.5 Adnabod dewisiadau a chynlluniau wrth gefn

Yn ddiamed bron bydd mwy nag un dewis ar gael i gyflawni'r nod a ddymunir ac mae'n arfer da adnabod ystod o ddewisiadau a'u gwerthuso'n drylwyr. Dylid gwerthuso unrhyw ddewis neu weithred posibl o safbwynt:

- Addasrwydd – a yw'n gyson â'r cyfarwyddyd strategol?
- Dichonoldeb – a yw adnoddau'n caniatáu'r gweithredu?
- Derbynioldeb – a yw'n gyfreithlon, yn foesol amddiffynadwy ac yn gyfiawn?

Gall dewis gynnwys rhyddhau adnoddau, briffio'r cyhoedd (cyfryngau prif ffrwd a chymdeithasu) neu ddatblygu cynllun wrth gefn neu argyfwng. P'run bynnag ddewis a ffefrir, mae'n hanfodol bod comanderiaid yn glir ynglŷn â'r hyn sydd angen iddynt ei wneud a dylai bod gweithdrefnau clir a gytunir arnynt ar gyfer cyfleu unrhyw benderfyniad i ohirio, atal neu weithredu tacteg.

Mae cynlluniau wrth gefn yn ymwneud â digwyddiadau a all ddigwydd a'r trefniadau sydd mewn grym i fedru ymateb iddynt os felly. Er enghraifft, gall tystiolaeth gref awgrymu bod argyfwng yn cael ei reoli'n llwyddiannus a'r effeithiau'n cael eu rheoli'n ddiogel, ond erys tebygolrwydd y gallai'r sefyllfa waethygu gydag effeithiau arwyddocaol. Nid yw gobeithio am y gorau'n ddewis y gellir ei amddiffyn a gallai'r cynllun wrth gefn yn yr achos hwn olygu diffinio mesurau i addasu'r ymateb petai'r sefyllfa'n gwaethgyu.

2.6 Gweithredu ac adolygu'r hyn a ddigwyddodd

Mae meithrin ymwybyddiaeth sefyllfaol, rhoi cyfarwyddyd a gwerthuso dewisiadau oll yn arwain at weithredu'n y modd a ddyfarnir fel yr un mwyaf effeithiol ac effeithlon o ddatrys argyfwng a dychwelyd at normalrwydd newydd. Gan fod y JDM yn gylch parhaus, mae'n hanfodol bod canlyniadau'r gweithrediadau hynny'n cael eu bwydo'n ôl i'r blwch cyntaf – casglu a rhannu gwybodaeth a chudd-wybodaeth – sy'n sefydlu ymwybyddiaeth ar y cyd o'r sefyllfa. Bydd hyn yn ei dro, yn llywio unrhyw adolygiad o'r cyfarwyddyd a'r asesiad risg ac mae'r cylch yn parhau.



3. Lefelau Gweithredol, Tactegol a Strategaethol o Orchymyn

Mae lefelau Gweithredol, Tactegol a Strategaethol yn haenau o orchymyn a fabwysiadir gan bob un o'r gwasanaethau brys ac maent yn gysylltiedig â swyddogaeth, nid ranc. Yn fras, mae'r swyddogaethau hyn yn cyfateb i'r rhai a ddisgrifir fel Efydd, Arian ac Aur mewn dogfennau eraill ynglŷn â gweithdrefnau brys. Dylid deall nad yw'r teitlau'n cyfleu awdurdod uwch mewn gwasanaeth neu ranc, ond yn hytrach yn nodi'r swyddogaeth a gwblheir gan yr unigolyn neu'r grŵp neilltuol hwnnw. Rhoddir y strwythur ymateb trosfwaol yn Ffigwr 3.

Er diben eglurdeb, mae'r ddogfen hon yn cyfeirio at haenau generig o orchymyn yn unig ac nid gweithgarwch penodol unrhyw wasanaeth. Yn ei hanfod, rhaid cael comander pendant a adnabuwyd i fod yn gyfrifol am gydgydio gweithrediadau ei wasanaeth ym mhob un o'r lefelau gorchymyn a adnabuwyd.

Mae'n hanfodol bod pob comander a benodir, wrth weithredu ar bob lefel, yn cysylltu â'i gilydd ar y cyfle cyntaf. Rhaid i Gomandariaid Gweithredol yn enwedig, wneud pob ymdrech i gydgydio mor agos â phosibl drwy gwrdd wyneb yn wyneb.


3.1 Gweithredol

Bydd y Comander Gweithredol yn rheoli ac yn rhyddhau adnoddau o'i wasanaeth perthnasol o fewn ardal waith a daearyddol ac yn rhoi cyfarwyddiadau a ddarperir gan y Comander Tactegol. Wrth i'r digwyddiad fynd rhagddo a rhagor o adnoddau'n cyrraedd y safle, bydd y lefel o oruchwylio'n cynyddu'n unol â hynny.

Mae'n hanfodol ei bod hi'n hawdd adnabod Comandariaid Gweithredol a Thactegol bob gwasanaeth ar safle'r digwyddiad. Drwy ddefnyddio'r strwythur cyffredinol hwn, bydd y gwasanaethau brys yn medru cyfathrebu â'i gilydd a deall swyddogaethau ac awdurdod ei gilydd. Dangosir swyddogaethau a chyfrifoldebau Comandariaid Gweithredol yn Atodiad C.

3.2 Tactegol

Lleolir y Comander Tactegol lle y gall gynnal y gwaith o arwain yn dactegol ac yn effeithiol. Mae hyn yn cynnwys ystyriaethau ar gyfer cydweithio â gwasanaethau eraill a ffactorau eraill megis mynediad at systemau cyfathrebu. Dylent ddod ar y safle yn ddibynnol ar yr ystyriaethau hyn a natur y digwyddiad. Er enghraifft, digwyddiad sengl cyfyngedig gydag effaith ehangach annhebygol – yn fwy tebygol o ddod ar y safle; digwyddiadau niferus gyda bygythiad symudol ac effaith ehangach tebygol – mwy tebygol o reoli o Ystafell Reoli a sefydlwyd. Dangosir swyddogaethau a chyfrifoldebau Comandariaid Tactegol yn Atodiad D.



Ffigwr 3 - Strwythur Ymateb Trosfwaol

3.3 Strategol

Mae'r Comander Strategol sydd â chyfrifoldeb cyffredinol dros bob gwasanaeth yn gyfrifol hefyd am lunio'r strategaeth ar gyfer y digwyddiad. Mae gan bob un o'r Comandariaid Strategol gyfrifoldeb cyfangwbl dros adnoddau eu sefydliad eu hunain, ond byddant yn dirprwyo penderfyniadau gweithredu i'w comandariaid lefel dactegol perthnasol. Ar y cyfle cyntaf, bydd grŵp strategol yn penderfynu/cadarnhau strategaeth ymateb benodol ac yn cofnodi datganiad strategaeth. Dangosir swyddogaethau a chyfrifoldebau Comandariaid Strategol yn Atodiad E.

3.4 Adnoddau rhyng-asiantaeth

Gall unrhyw wasanaeth wneud cais am gymorth dros dro gan staff ac offer gwasanaeth arall. Dan yr amgylchiadau hyn, er y bydd y gwasanaeth cefnogol yn ildio'r rheolaeth uniongyrchol o'r adnoddau hynny i'r gwasanaeth arall dros gyfnod y dasg, serch hynny bydd yn cadw rheolaeth gyffredinol o'i staff a'i offer drwy'r amser. Dylai staff o un gwasanaeth sy'n rhoi cymorth i wasanaeth arall fel hyn ymgymryd â thasgau lle cawsant hyfforddiant ar eu cyfer yn unig ac ni ddylent roi cymorth i wasanaeth mewn modd peryglus.

Mae rhwydwaith yn bodoli o Swyddogion Cyswllt Rhyng-Asiantaeth Cenedlaethol (NILOs) sydd wedi eu hyfforddi ac yn gymwys i roi cyngor fel rhan o'r Tîm Cefnogi Gorchmynion.

3.5 Strwythur Ymateb Trosfwaol

Gellir gweld manylion y weithred a'r cydgysylltu o lefelau is-genedlaethol a chenedlaethol ar gyfer ymatebion brys yng Nghysyniadau Gweithrediadau Llywodraeth y Deyrnas Unedig a phenodau perthnasol o Ymateb Brys ac Achub. Bydd natur a difrifoldeb yr argyfwng yn pennu a fydd angen i'r haenau is-genedlaethol a chenedlaethol fod ynghlwm neu beidio, tra bydd lleoliad yr argyfwng yn dylanwadu ar ymgysylltu posibl â Gweinyddiaethau Datganoledig yng Nghymru, Yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Pwrpas y lefel genedlaethol, p'un ai wedi ei rheoli gan Adran Arweinol o Lywodraeth (LGD) neu waith traws-lywodraethol a wneir drwy Ystafelloedd Briffio Swyddfa'r Cabinet (COBR), yw ymdrin â chydgordio ar draws holl adrannau perthnasol o'r llywodraeth ac ar draws nifer o Grwpiau

Cydgysylltu Strategol Lleol (SCGs). Mae hyn yn cynnwys hebrwng, blaenoriaethu a dyrannu adnoddau cenedlaethol prin (e.e. hofrenyddion sy'n codi nwyddau trwm) i reolaeth leol. Nid yw'r alwad am drefniadau cenedlaethol neu is-genedlaethol yn lleihau neu'n disodli cyfrifoldebau lleol y SGC, sy'n sefyll fel ag y maent, er bydd eu hystyriaethau'n cael eu bwydo a'u dylanwadu gan bolisiâu cenedlaethol, strategaethau a chyfarwyddiadau cydgyrdio. Dangosir swyddogaethau a chyfrifoldebau SCG, ynghyd ag agenda safonol, yn Atodiad F.

3.6 Dysgu ar y cyd

Mae nifer o sesiynau ôl-drafodaeth ac ymchwiliadau wedi'r digwyddiad wedi amlygu pwyntiau dysgu penodol fel modd o wella ymdrechion ymateb i'r dyfodol. Mae sesiynau ôl-drafodaeth ac ymchwiliadau wedi'r digwyddiad gan wasanaethau unigol hefyd wedi amlygu'r galw am welliannau mewnol.

Er mwyn hwyluso ôl-drafodaeth weithredol ac i ddarparu tystiolaeth ar gyfer ymchwiliadau (p'un ai'n farnwrol, cyhoeddus, technegol, ymchwiliol neu unrhyw ffurf arall), mae'n hanfodol cadw cofnodion. Dylai prosesau ôl-drafodaeth asiantaeth sengl neu rymg-asiantaeth anelu at gasglu gwybodaeth tra mae pethau ar gof. Am y rheswm hwn dylid cynnal sesiwn ôl-drafodaeth bendant ar y cyd gan y Comanderaid cyn gynted â phosibl yn ymarferol wedi'r digwyddiad.

Ystyr dysgu yw casglu a datblygu gwybodaeth, sgiliau ac agweddau sy'n llunio ymddygiad a sut mae pobl yn ymateb i sefyllfaoedd. Mae'r tair elfen yn bwysig. Mae sut mae pobl yn dysgu yn gymhleth a gellid cyflawni hyn drwy brofiad uniongyrchol, astudio profiadau eraill a'u harsylwi, neu dderbyn addysg, un ai'n ffurfiol neu mewn amryw o ddulliau anffurfiol.

Mae'n bwysig gwahaniaethu rhwng gwersi a adnabuwyd a rhai a ddysgwyd. Adnabod gwersi yw'r broses o amlygu a chyfathrebu materion sydd angen rhyw fath o newid er mwyn osgoi digwyddiadau negyddol rhag digwydd eto, neu i bwysleisio arfer dda. Dysgu gwersi yw'r broses fwy cymhleth o wneud a sefydlu'r newidiadau hynny mewn modd sy'n adlewyrchu'r ffordd y mae sefydliadau'n gweithredu a sut mae unigolion yn ymddwyn.

Mae dysgu ar y cyd yn disgrifio'r ffordd o adnabod y gwersi sy'n berthnasol i ddysgu ar y cyd a'r broses o ddysgu'r gwersi hynny. Mae gan wasanaethau unigol eu dulliau eu hunain i adnabod a dysgu gwersi. Mae adeiladu a chynnal rhyngweithredadwyedd yn golygu bod y gwersi hyn yn cael eu rhannu er mwyn lleihau canlyniadau anfwriadol (e.e. newid sydd yn gwella effeithiolrwydd gwaith un gwasanaeth ond yn cael effaith negyddol ar effeithiolrwydd gwaith ar y cyd) ac yn gwireddu'r cyfleoedd ar gyfer mwy o rymgweithredadwyedd. Mae hyn yn galw am ymrwymiad at rannu a blaenoriaethu gwersi sydd â goblygiadau ar gyfer gweithio ar y cyd.

Dylid cynnal y gwaith o adnabod gwersi, a dosbarthu a datblygu cynlluniau gweithredu yn sgil hynny ac i sefydlu'r newid, trwy broses o ôl-drafodaeth ffurfiol a reolir gan y Fforwm Cydnerth Lleol (LRF). Mae gwaith pellach yn cael ei gynnal gan JESIP fel rhan o'r trefniadau etifeddiaeth i sicrhau y cyfeirir gwersi a adnabuwyd drwy weithio ar y cyd at Fwrdd Llywodraethu Tri-Gwasanaeth cenedlaethol i'w hystyried. Bydd hyn yn sicrhau bod unrhyw weithred cysylltiedig, gan un gwasanaeth neu ar y cyd, o ganlyniad i'r dysgu ar y cyd hwn, yn cael ei gwneud a'r newidiadau'n cael eu sefydlu i fod yn rhan o'r ffordd y mae sefydliadau'n gweithredu a sut mae unigolion yn ymddwyn. Bydd rhan o'r gwaith hwn yn ystyried y cyfleoedd ar gyfer sesiynau ôl-drafodaeth ar y cyd a sut y gellir hwyluso hyn a'i strwythuro'n ffurfiol.



ATODIADAU

C. Swyddogaethau a Chyfrifoldebau Comander Gweithredol

D. Swyddogaethau a Chyfrifoldebau Comander Tactegol

E. Swyddogaethau a Chyfrifoldebau Comander Strategol

F. Swyddogaethau a Chyfrifoldebau Grŵp Cydgordio Strategol





Atodiad C

Swyddogaethau a Chyfrifoldebau Comander Gweithredol

Nod trosfwaol Comander Gweithredol yw i sicrhau bod gweithrediadau sydyn ac effeithiol yn cael eu rhoi ar waith i arbed bywydau, lleihau niwed ac i liniaru'r digwyddiad. I gyflawni hyn bydd angen i chi:

- Gwblhau asesiad cychwynnol o'r sefyllfa a sicrhau y ceisiwyd am yr adnoddau priodol ac, os yw'n briodol, bod cyhoeddiad o ddiwyddiad mawr yn cael ei ddatgan;
- Sicrhau bod gennych ddealltwriaeth o swyddogaeth pob asiantaeth o safbwynt rheoli effeithiol a chydgyssylltu dioddefwyr, goroeswyr a theulu'r bobl hynny;
- Defnyddio JDM i sefydlu ymwydyddiaeth ar y cyd o'r sefyllfa drwy gytuno barn gyffredin o'r sefyllfa, ei goblygiadau a'r canlyniadau posibl a'r gweithrediadau sydd eu hangen er mwyn canfod datrysiad.
- Cynnal sesiwn friffio ar y cyfle cyntaf. Sicrhau bod y neges yn eglur ac yn ddealladwy gan bawb, a gwneud hynny'n rheolaidd;
- Galw cyfarfodydd ar y cyd a defnyddio'r JDM i rannu a chydgordio gwybodaeth, cuddwybodaeth a chynlluniau gweithredu, i sicrhau bod popeth yn cydweddu rhwng yr amlasiantaethau ac i gael dealltwriaeth glir o'r blaenoriaethau tactegol cychwynnol a'r rhai parhaus;
- Gan ddefnyddio'r JDM, sicrhau bod ymwybyddiaeth sefyllfaol yn cael ei chynnal drwy gyfathrebu'n effeithiol â phob sefydliad amlasiantaeth, er mwyn cael cymorth wrth roi'r cynllun gweithredu ar waith;
- Gan ddefnyddio'r JDM, llunio cynllun gweithredu ar y cyd ynghyd â blaenoriaethau angenrheidiol ar gyfer ei roi ar waith, mewn digon o fanylder i bob gwasanaeth fedru deall gweithgarwch yr ymatebwyr eraill yn y dyfodol o ran natur, lleoliad ac amser. Deall holl swyddogaethau, cyfrifoldebau creiddiol, anghenion a galluogrwydd (gan gynnwys bylchau) amlasiantaeth y Comander Gweithredol;
- Adnabod a chytuno ar y pethau sy'n sbarduno, yr arwyddion a'r trefniadau ar gyfer gwagio'r safle ar frys, neu ran o'r safle, neu fesurau rheoli brys eraill.
- Gan ddefnyddio'r JDM, cynnal, cofnodi a rhannu asesiadau risg deinamig parhaus, gan roi mesurau rheoli priodol ar waith gyda gweithrediadau ac adolygiadau priodol;
- Deall sut mae peryglon/risgiau sy'n newid yn barhaus yn effeithio ar bob sefydliad a gweithio gyda'ch cydweithwyr amlasiantaeth i ymdrin â'r materion hyn;
- Sicrhau eich bod yn cwrdd â'ch cyfrifoldebau cyfreithiol a statudol a'u rhoi ar waith mewn perthynas ag iechyd, diogelwch a lles unigolion o'ch sefydliad yn ystod y cyfnod ymateb;
- Gwneud penderfyniadau a'u rhannu gyda'ch lefel briodol o gyfrifoldeb, a bod yn wybyddus o reoli canlyniadol. Dosbarthu'r penderfyniadau hyn i'w gweithredu gan gydweithwyr amlasiantaeth;
- Gan ddefnyddio'r JDM, adnabod a gweithredu'r heriau y gall cynllun gweithredu'ch sefydliad ei achosi i'ch partneriaid amlasiantaeth;

- Penderfynu a yw'r sefyllfa'n galw am roi'r lefel nesaf o gefnogaeth gorchmynion ar waith (Grŵp Cydgordio Tactegol) a chynnig argymhellion priodol;
- Diweddarau'r Comander Tactegol ynglŷn ag unrhyw newidiadau, gan gynnwys amrywiaethau mewn tactegau amlasiantaeth o fewn ei ardal ddaearyddol/weithredol o gyfrifoldeb;
- Sicrhau cefnogaeth briodol ar y safle gan eich sefydliad, o safbwynt gweithredwyr cyfathrebu a chofnodi - dylid darparu cefnogaeth NILO neu debyg os yw hynny ar gael. Bydd graddfa a'r math o gefnogaeth yn dibynnu ar y digwyddiad;
- Ystyried gweithdrefnau wedi'r digwyddiad sydd gan y sefydliad.



Atodiad D

Swyddogaethau a Chyfrifoldebau Comander Tactegol

Nod troswaol Comander Tactegol yw i sicrhau bod gweithrediadau sydyn ac effeithiol yn cael eu rhoi ar waith i arbed bywydau, lleihau niwed ac i liniaru'r digwyddiad. Dylai'r Model Penderfynu ar y Cyd (JDM) gael ei ddefnyddio fel yr agenda safonol ar gyfer cyfarfodydd o'r Grŵp Cydgordio Tactegol (TCG). I gyflawni'r nod troswaol bydd angen i chi:

- Fod yn ymwybodol o strwythur gorchmynion yr amlasiantaeth, swyddogaethau comander, cyfrifoldebau a galluogrwydd (gan gynnwys bylchau), a'u deall, a monitro'r strwythur gorchmyn gweithredol gan gynnwys swyddogaethau gwaith;
- Penderfynu a yw'r sefyllfa'n haeddu rhoi'r lefel strategol o gydgyssylltu ar waith, ac os felly gwneud hynny;
- Sefydlu barn gyffredin o'r sefyllfa rhwng yr asiantaethau ymateb. Dewis (os yw'n briodol) a sefydlu cadeirydd i gynnal y cyfarfod Amlasiantaeth TCG ar y cyfle cyntaf, a'i gynnal yn rheolaidd, er mwyn sicrhau ymwybyddiaeth ar y cyd o'r sefyllfa;
- Llunio a chytuno ar y bwriad, amcanion a'r cysyniad cyffredinol ar y cyd o weithrediadau er mwyn iddynt lwyddo gyda chynllun ar y cyd. Ar adegau cyson i asesu ac i ddsbarthu, trwy'r cysylltiadau cyfathrebu priodol, y wybodaeth a'r cudd-wybodaeth sydd ar gael i werthuso'r bygythiadau, peryglon, gwendidau a'u gweithrediadau eu hunain yn gywir, er mwyn sefydlu a chynnal ymwybyddiaeth amlasiantaeth ar y cyd o sefyllfaeodd ac i hyrwyddo penderfyniadau effeithiol;
- Darparu gwybodaeth gywir ac amserol i hysbysu a diogelu cymunedau, gweithio gyda'r cyfryngau a gwneud defnydd o gyfryngau cymdeithasu drwy ddull amlasiantaeth;
- Deall sut mae bygythiadau a pheryglon sy'n newid yn gyson yn effeithio ar bob sefydliad a gweithio gyda chydweithwyr amlasiantaeth i gynnal asesiadau risg deinamig ar y cyd, rhoi trefniadau lliniaru a rheoli ar waith i fonitro ac ymateb i natur newidiol argyfyngau'n barhaus ar gyfer eich sefydliad;
- Sicrhau eich bod yn cwrdd â'ch cyfrifoldebau cyfreithiol a statudol a'u rhoi ar waith mewn perthynas ag iechyd, diogelwch, hawliau dynol, diogelu data a lles unigolion o'ch sefydliad yn ystod y cyfnod ymateb;
- Rhannu a chydgordio cynlluniau gweithredu i sicrhau bod popeth yn cydweddu rhwng yr amlasiantaethau ac i gael dealltwriaeth glir o'r blaenoriaethau tactegol cychwynol a'r rhai parhaus;
- Adnabod a chytuno ar brif bwynt rheoli cyffredin amlasiantaeth ar gyfer Comanderaid Gweithredol a pharhau mewn safle addas i fedru cynnal gwaith gorchmyn tactegol effeithiol o'r digwyddiad neu weithred a chynnal ymwybyddiaeth ar y cyd o'r sefyllfa;
- Rheoli a chydgordio, lle bydd angen hynny, adnoddau a gweithgarwch amlasiantaeth, gan ddarparu ymateb cydlynol a phendant;
- Cysylltu â sefydliadau perthnasol i ymdrin â'r blaenoriaethau hirdymor o adfer gwasanaethau hanfodol, a rhoi cymorth i hwyluso adferiad y cymunedau a effeithir;
- Sicrhau bod pob penderfyniad tactegol a wneir, a'r rhesymeg wrth wraidd hynny, yn cael eu dogfennu mewn cofnod penderfyniadau, i sicrhau bod llwybr archwilio clir yn bodoli ar gyfer pob ôl-drafodaeth a gwaith dysgu i'r dyfodol mewn cyd-destun amlasiantaeth;
- Hwyluso neu sicrhau bod cyfleusterau ôl-drafodaeth ar gael (cefnogi'r Comander Gweithredol a chael ôl-drafodaeth gydag o).

Atodiad E

Swyddogaethau a Chyfrifoldebau Comander Strategol

- Amddiffyn bywyd, eiddo a'r amgylchedd;
- Gosod, adolygu, cyfathrebu a diweddarau'r strategaeth, yn seiliedig ar y gudd-wybodaeth sydd ar gael a'r bygythiad a'r risg;
- Mynychu a chadeirio o bosibl y Grŵp Cydgordio Strategol (SCG), os yw'n bodoli, neu ystyried yr angen i ofyn i'r SCG gael ei sefydlu;
- Ymgynghori ag asiantaethau partneriaethol a grwpiau cymunedol wrth benderfynu ar y strategaeth;
- Bod ynghlwm â gwneud penderfyniadau ar lefel Dactegol, lle bydd hynny'n briodol;
- Ystyried gosod paramedrau tactegol y gall yr haen Dactegol weithio oddi mewn iddynt;
- Bod ynghlwm â sesiynau briffio yn ôl yr angen;
- Parhau i fod ar gael i haenau asiantaethol eraill o orchymyn Strategol neu Dactegol i sicrhau bod dulliau cyfathrebu priodol yn bodoli ar lefelau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol;
- Sicrhau, yn ôl yr angen, bod protocolau gorchymyn yn cael eu gosod, eu cytuno a'u deall gan bob parti perthnasol;
- Sicrhau adnoddau strategol er mwyn datrys y digwyddiad a blaenoriaethu dyrannu adnoddau, yn ôl yr angen;
- Sicrhau bod llwybrau clir o gyfathrebu rhwng ymatebwyr Categori 1 a 2 a'r asiantaethau priodol;
- Adolygu a sicrhau cadernid ac effeithiolrwydd y tîm gorchymyn, adnabod yr anghenion cymorth o'r gymuned gadarn ehangach a'u rheoli'n briodol;
- Cynllunio y tu hwnt i'r cyfnod ymateb cychwynnol o adfer yr argyfwng a dychwelyd at normalrwydd;
- Cymryd cyfrifoldeb llwyr dros y strwythur gorchymyn ar gyfer iechyd a diogelwch, amrywiaeth, cydraddoldeb a chydymffurfiaeth â hawliau dynol a sicrhau bod pob asesiad effaith perthnasol yn cael ei gwblhau;
- Adnabod y lefel o gefnogaeth sydd ei hangen i ddatrys digwyddiad neu weithred a chreu adnoddau ar gyfer ymateb eich asiantaeth;
- Cymryd cyfrifoldeb am ddatblygu strategaethau cyfathrebu a'r cyfryngau;
- Cwblhau ôl-drafodaeth bwrpasol wedi'r digwyddiad, ac ôl-drafodaeth gyffredinol.



Atodiad F

Swyddogaethau a Chyfrifoldebau'r Grŵp Cydgordio Strategol

Diben SCG (fel yr amlinellwyd yn y canllaw anstatudol a geir yn yr Ymateb Brys ac Achub) yw i gymryd cyfrifoldeb llwyr am reolaeth amlasiantaeth yr argyfwng a sefydlu fframwaith polisi a strategol y gall lefelau is o orchmynion a grwpiau cydgordio weithio ynddynt. Bydd yr SCG yn:

- Pennu a chyhoeddi nod ac amcanion strategol clir a'u hadolygu'n rheolaidd;
- Sefydlu fframwaith polisi ar gyfer rheolaeth gyffredinol y digwyddiad neu'r sefyllfa;
- Blaenoriaethu anghenion yr haen dactegol a dyrannu staff ac adnoddau yn ôl yr angen;
- Llunio a gweithredu cynlluniau cyfathrebu â'r cyhoedd a delio â'r cyfryngau, gan ddirprwyo hyn o bosib i un asiantaeth ymateb;
- Cyfarwyddo gwaith cynllunio a gweithredu y tu hwnt i'r ymateb cychwynol er mwyn hwyluso'r broses adfer.

Nid oes gan yr SCG yr awdurdod ar y cyd i roi gorchmynion gweithredol i asiantaethau ymateb unigol. Mae pob sefydliad yn cadw ei awdurdod gorchymyn ei hun ynghyd â'i gyfrifoldebau a ddiffinir ac yn mynd ati i weithredu gorchmynion mewn perthynas a'i weithrediadau ei hun yn y modd arferol. Serch hynny, bydd pob cyfarwyddyd a gydgordiwyd a gynhyrchir gan yr SCG yn cael eu trosi gan bob ymatebwr i orchmynion priodol o fewn ei strwythur gorchmynion ei hun ac yn cael eu trosglwyddo'n uniongyrchol i bob haen is o'r Grwpiau Cydgordio Strategol. Mae'r rhain yn drefniadau cyfarwydd a dealladwy a ddefnyddir yn rheolaidd ledled y wlad.

Fel arfer, ond nid bob tro, swyddogaeth yr heddlu fydd cydgordio gweithgarwch gyda'r sefydliadau eraill ac felly i gadeirio'r SCG. Mae'r heddlu'n enwedig yn debygol o gynnig cadeirydd i'r SCG pan fydd bygythiad i fywyd dynol, yr argyfwng yn ganlyniad gweithred droseddol neu gan derfysgwyr, neu lle ceir ystyriaethau trefn cyhoeddus arwyddocaol. Dan yr amgylchiadau hyn, gall yr un unigolyn weithredu fel Comander Strategol yr Heddlu a Chadeirydd yr SCG. Mewn mathau eraill o argyfwng, rhai sefyllfaoedd morol neu iechyd er enghraifft, gall asiantaeth arall ar wahân i'r heddlu gymryd yr awennau a chadeirio'r SCG.

Gall yr SCG gymryd rhagor nag awr i'w sefydlu a chael darlun clir o'r digwyddiadau. Y prif flaenoriaeth yw llunio strategaeth gydag amcanion allweddol a fydd yn cynnwys ac yn darparu ffocws ar gyfer holl weithgarwch y sefydliadau ymatebol. I sicrhau bod ymdrech ar y cyd yn cael ei rhoi ar waith, hyd yn oed cyn i'r SCG gwrdd gyntaf, dylai strategaeth weithredol fod ar gael yn syth i hyrwyddo'r gweithrediadau o flaenoriaeth. Pan fydd yr SCG yn cwrdd ac yn cael dealltwriaeth lawn o'r sefyllfa, dylent wedyn adolygu a diwygio'r strategaeth weithredol ac addasu'r amcanion a'r blaenoriaethau yn ôl yr angen. Rhoddir strategaeth weithredol a ddylid ei defnyddio fel templed cychwynol dros y dudalen, ynghyd ag amcanion cychwynol a gweithrediadau galluogi i'w hystyried ymhellach.

Dylai'r SCG gael ei leoli mewn lleoliad addas i ffwrdd o'r safle. Y Ganolfan Cydgysylltu Strategol yw'r enw a roddir ar y lleoliad lle bydd yr SCG yn cwrdd gyda'r staff cefnogol yn eu lle. Fel arfer, ond nid bob amser, pencadlys y gwasanaeth neu'r sefydliad arweiniol fydd hyn (e.e. Pencadlys yr

Heddlu). Gall lleoliad y cyfarfodydd newid pan fydd asiantaeth arall yn cymryd yr arweiniad ar gyfer y Grŵp Cydgysylltu Achub pan symudir y ffocws o ymateb i achub.

STRATEGAETH AC AGENDA CYFARFOD SAFONOL YR SCG

Strategaeth Safonol i Alluogi Gweithred Ymateb Ar Unwaith i Unrhyw Sefyllfa o Argyfwng

I reoli'r sefyllfa er mwyn arbed bywydau a chyfyngu'r canlyniadau uniongyrchol a achoswyd gan yr argyfwng a'r canlyniadau anuniongyrchol a achoswyd gan weithred ymatebwr.

Llywodraethu Amcanion

- Amddiffyn a diogelu bywyd;
- Lliniaru a lleihau effaith digwyddiadau heriol;
- Diogelu seilwaith cynnal bywyd a gwasanaethau hanfodol;
- Hyrwyddo atgyweirio a gwaith gwelliant yn union wedi digwyddiad heriol.

Gweithred Galluogi

Bydd angen i'r elfennau gwaith canlynol fod yn eu lle i hyrwyddo ymateb effeithiol:

- Creu a rhannu Darlun Gwybodaeth Cyffredin o batrwm graddol y digwyddiadau ar draws yr holl sefydliadau ymatebol;
- Gweithdrefnau syml ar gyfer gwneud penderfyniadau ar y cyd a rhoi cyfarwyddyd amserol;
- Blaenoriaethu tasgau;
- Dyrannu adnoddau penodol;
- Cydweithrediad trawsffiniol rhwng partneriaid.

Gweithgarwch swyddogaethol

Dyluniwyd yr amcanion llywodraethol uchod i gynnwys ond nid blaenoriaethu'r (sef gwaith y Comandariaid ar bob lefel) rhestr ganlynol o weithgarwch:

- Arbed a diogelu bywyd dynol;
- Lleddfu dioddefaint;
- Rheoli'r argyfwng, cyfyngu ar ei faint a'i ehangiad;
- Rhoi rhybuddion, gwybodaeth a chynghor i'r cyhoedd a busnesau;
- Diogelu iechyd a diogelwch staff ymatebol;
- Diogelu'r amgylchedd;
- Diogelu eiddo cyn belled â phosibl yn ymarferol;
- Cynnal ac adfer gweithgarwch critigol;
- Cynnal gwasanaethau normal ar lefelau priodol;
- Hyrwyddo a hwyluso hunangymorth o fewn y gymuned;
- Hwyluso ymchwiliadau (drwy ddiogelu'r safle a chadw cofnodion);
- Hwyluso adfer y gymuned (gan gynnwys cymorth dyngarol, seilwaith economaidd ac effeithiau amgylcheddol);

- Gwerthuso'r ymateb a'r ymdrech achub;
- Adnabod a gweithredu er mwyn rhoi'r gwersi a ddysgwyd ar waith;
- Cynnal y gyfraith.

Cyfarfod SCG - Agenda Safonol

Materion Rhagarweiniol: Cynllun seddi o amgylch y bwrdd a hysbyswyd ymlaen llaw ac enwau'r mynychwyr yn eu lle

<u>Eitem</u>	<u>Arwain</u>
1. Cyflwyniadau (drwy eithriad a phan fydd eu hangen yn unig)	Cadeirydd
2. Datganiad o eitemau sydd angen sylw brys	Cadeirydd
3. Cadarnhau penderfyniadau ar eitemau brys	Cadeirydd
<u>Gohirio yn ôl yr Angen er mwyn Gweithredu ar Faterion Brys</u>	
4. Briffio sefyllfaol (gan gynnwys unrhyw eglurhad neu ddiweddariadau gan Bennaeth Staff/Rheolwr Gwybodaeth/Mynychwyr) drwy eithriad yn unig	
5. Adolygu a chytuno strategaeth a blaenoriaethau	Cadeirydd
6. Adolygu gweithrediadau sydd heb dderbyn sylw a'u heffeithiau	Cadeirydd
i. Penderfynu ar weithrediadau strategol newydd sydd eu hangen	
ii. Dyrannu cyfrifoldebau ar gyfer y gweithrediadau a gytunwyd	
7. Cadarnhau dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf (ynghyd â rhythm cyfarfod sefydledig)	Cadeirydd
Wedi'r Cyfarfod: Dosbarthu cofnod o'r penderfyniadau, sicrhau bod y cofnod penderfyniadau wedi ei ddiweddarau ac yn gyflawn	Ysgrifennydd/Cadeirydd



J E S I P

JOINT EMERGENCY SERVICES
INTEROPERABILITY PROGRAMME

Working Together – Saving Lives

Gwefan JESIP: www.jesip.org.uk

JESIP E-bost: jesip@homeoffice.x.gsi.gov.uk